Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

Campws Dinas Casnewydd, Prifysgol De Cymru, Ffordd Brynbuga, Casnewydd, NP20 2BP

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Mawrth 2017

Amser: 14.55 – 17.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/3900

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Huw Irranca-Davies AC (Cadeirydd) Nathan Gill AC Dai Lloyd AC David Melding AC
Tystion:	Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru Dr Hugh Rawlings CB, Cyfarwyddwr, Llywodraeth Cymru Des Clifford, Llywodraeth Cymru
Staff y Pwyllgor:	P Gareth Williams (Clerc) Tanwen Summers (Ail Glerc) Gerallt Roberts (Dirprwy Glerc) Alys Thomas (Ymchwilydd) Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol)

Trawsgrifiad

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 717KB) Gweld fel HTML

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Elis-Thomas. Ni chafwyd eilydd.

2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

2.1 SL(5)073 – Rheoliadau Trwyddedu Morol (Apelau Hysbysiadau) (Cymru) (Diwygio) 2017

2.2 SL(5)074 – Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Ffurf Ragnodedig) (Cymru) 2017

2.3 SL(5)075 – Rheoliadau Trwyddedu Morol (Ffioedd) (Cymru) 2017

2.0a Ystyriodd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon â hwy.

3 Papur i'w nodi

3.1 Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru): Gohebiaeth oddi wrth Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

3.1a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth.

4 Ymchwiliad Llais cryfach i Gymru: Sesiwn dystiolaeth 5

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, ynghylch ei ymchwiliad, Llais cryfach i Gymru.

5 Papur Gwyn Llywodraeth Cymru – 'Diogelu Dyfodol Cymru': Sesiwn dystiolaeth 1

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, ynghylch Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Diogelu Dyfodol Cymru'.

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

7 Ystyried y dystiolaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth.

8 Blaenraglen waith

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor ei flaenraglen waith.
8.2 Cytunodd y Pwyllgor ar ohebiaeth ddrafft i Gadeiryddion pwyllgorau cyfansoddiadol deddfwrfeydd eraill y Deyrnas Unedig.